# Adroddiad Blynyddol

# Safonau'r Gymraeg

# 2024 – 2025

Rhoi Safonau'r Gymraeg ar waith yn Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu

**This document is available in English. If you would like access to the English version, please contact:@ Laura.armitt@south-wales.police.uk**

**Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg. Os hoffech gael y fersiwn Saesneg, cysylltwch â: Laura.armitt@south-wales.police.uk**

## Cyflwyniad

Yn 2017, cyflwynwyd 'Safonau'r Gymraeg' yng Nghymru a chawsom ein hysbysiad Cydymffurfio â'r Gymraeg gan Gomisiynydd y Gymraeg. Amlinellir y Safonau y mae'n rhaid i ni gydymffurfio â nhw yn hysbysiad cydymffurfio cyfreithiol Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, y gellir ei weld ar ein gwefan.

Ers cyflwyno'r Safonau, mae Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu wedi bwrw ati mewn ffordd weithredol i hyrwyddo'r Gymraeg. Rydym wedi croesawu'r Safonau fel ffordd o sicrhau y gallwn gynnig y gwasanaeth Cymraeg gorau posibl, ac un sy'n gyfartal â'r un a ddarparwn yn Saesneg.

Mae'r ddogfen hon yn rhoi trosolwg o'r gwaith a wnaed i gydymffurfio â'r Safonau a hyrwyddo cynhwysiant mewn perthynas â'r Gymraeg yn ystod blwyddyn ariannol 2024-2025.

## Trefniadau Goruchwylio Mewnol

Pan gafodd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu newydd ei phenodi yn 2024, cynhaliwyd adolygiad o drefniadau llywodraethu canolog Swyddfa'r Comisiynydd. Bellach caiff Safonau'r Gymraeg eu goruchwylio gan y Cyfarfod Cydymffurfiaeth Gyfreithiol, wedi'i gadeirio gan y Pennaeth Sicrwydd a Chydymffurfiaeth.

Mae pob cyfarwyddiaeth wedi penodi Hyrwyddwr y Gymraeg sy'n gyfrifol am gynnig cyngor ymarferol am y Gymraeg ac am helpu timau i ddefnyddio'r Gymraeg.

## Ymgorffori'r Safonau 2024-2025

Yn ystod blwyddyn o newid wrth i ni gyflwyno Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu newydd am y tro cyntaf ers cyflwyno'r system yn 2012, rhoddwyd ffocws o'r newydd ar gydymffurfiaeth gyfreithiol, gan gynnwys Safonau'r Gymraeg. Yn sgil cyflwyno'r strwythur llywodraethu newydd, cafwyd cyfle i gynnal adolygiad manwl o Safonau'r Gymraeg ym mhob rhan o Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu.

Mae amrywiaeth o wybodaeth a deunyddiau yn y Gymraeg ar gael i bob aelod o'r staff er mwyn cynnig gwasanaeth cyson i'r cyhoedd. Ers i'r Safonau gael eu rhoi ar waith, cymerwyd camau ymarferol i sicrhau ein bod yn y sefyllfa orau i ddarparu gwasanaeth Cymraeg cadarnhaol. Ymhlith yr enghreifftiau, cynigiwyd sesiynau ‘Siop Siarad’ i'r staff, wedi'u hwyluso gan hyfforddwr Cymraeg Heddlu De Cymru, sy'n galluogi staff i ymarfer a gwella eu sgiliau Cymraeg.

Mae aelodau newydd o staff yn cael cyflwyniad penodol i'r Gymraeg, a cheir adran ar y Gymraeg yn y pecyn gwybodaeth am y tîm sy'n cynnwys canllawiau a fersiynau Cymraeg o negeseuon allan o'r swyddfa.

Mae aelodau o staff sy'n siarad Cymraeg yn nodi hynny fel rhan o'r troedyn ar eu negeseuon e-bost a thrwy wisgo laniardau a bathodynnau sy'n dangos eu bod yn siarad

Cymraeg. Ceir bathodyn hefyd i'r rhai hynny sy'n dysgu Cymraeg i'w helpu i ddatblygu. Mae ardal Gymraeg yn y swyddfa lle gall y tîm gael gafael ar daflenni, laniardau a dogfennau cymorth.

Yn ddiweddar, rydym wedi cynnal archwiliad o'r Gymraeg yn Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, a fydd yn sail i'r cynllun gweithredu ar gyfer Safonau'r Gymraeg 25-26.

**Safonau Cyflenwi Gwasanaethau**

**Rydym yn gweithio i gyflawni ein safonau 'Cyflenwi Gwasanaethau ' drwy nifer o fesurau, gan gynnwys:**

- Fformat ‘cysylltwch â ni’ safonol ar ein dogfennau i amlinellu ein bod yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg.
- Rhoi troednodiadau ar waelod negeseuon e-bost a phapurau pennawd i esbonio ein bod yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg.
- Mae siaradwyr Cymraeg yn dangos eu bod yn gallu siarad Cymraeg ar droedyn negeseuon e-bost.
- Mae llofnodion e-bost, negeseuon e-bost 'allan o'r swyddfa' a negeseuon llais i brif rifau'r llinell dir yn ddwyieithog.
- Caiff pob un sy'n ffonio prif linell tîm Swyddfa'r Comisiynydd ei gyfarch yn ddwyieithog. Wedyn, rhoddir cymorth yn y Gymraeg hyd nes y daw hyn bellach yn amhosibl am nad oes digon o siaradwyr Cymraeg ar gael neu am fod angen siarad ag arbenigwr ar y pwnc nad yw'n siarad Cymraeg. Caiff pob un sy'n ffonio ac yn siarad Cymraeg ei drin â chwrteisi a pharch, ac rydym yn anelu at ddarparu gwasanaeth cyson gadarnhaol.
- Pan fyddwn yn cysylltu â phobl am y tro cyntaf ac nad ydym yn ymwybodol o'u dewis iaith, rydym yn gofyn iddynt a hoffent gyfathrebu â ni yn Gymraeg. Mae hyn yn berthnasol oni bai bod y person hwnnw eisoes wedi cysylltu yn Saesneg neu fod ei ddewis iaith eisoes yn hysbys.
- System i gofnodi manylion y rhai sy'n rhoi gwybod i ni eu bod am gyfathrebu â ni drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Mae'r dogfennau defnydd safonol a ddefnyddir yn y tîm yn ddwyieithog.
- Mae postiadau ar y cyfryngau cymdeithasol o holl gyfrifon y Comisiynydd yn ddwyieithog.
- Mae ein polisi ar gyfer dyfarnu grantiau yn pwyso a mesur yr angen i ystyried a hyrwyddo'r Gymraeg fel rhan o'r broses ddyfarnu.
- Mae Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn hysbysebu'r Cyrsiau Pontio Cymraeg sydd ar gael ym mhob rhan o Heddlu De Cymru.
- Adran benodol fel rhan o “porth” misol y tîm sy'n ymwneud â'r Gymraeg
- Cafodd poster Cymraeg ei greu a'i osod mewn rhannau gwahanol o'r swyddfa i annog defnydd o'r iaith.

- Mae'r hyrwyddwyr Cymraeg yn rhan o Rwydwaith Cymraeg ehangach Heddlu De Cymru.

**Safonau Llunio Polisi**

**Rydym yn gweithio i fodloni ein safonau 'Llunio Polisi' drwy nifer o fesurau, gan gynnwys:**

- Pan fydd polisïau neu brosiectau'n cael eu sefydlu neu eu hadolygu a'u bod yn destun proses 'Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb', mae hyn yn cynnwys asesiad o oblygiadau'r Gymraeg, gan gynnwys cyfleoedd i hyrwyddo'r Gymraeg.
- Trefnir sesiynau codi ymwybyddiaeth i staff newydd er mwyn sicrhau eu bod yn defnyddio'r broses Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb/y Gymraeg yn effeithiol.

**Safonau Gweithredu**

**Rydym yn gweithio i gyflawni ein safonau 'Gweithredu' drwy nifer o fesurau, gan gynnwys:**

- Mae aelodau o'r staff wedi cael cynnig cyfle i gael dogfennau adnoddau dynol yn Gymraeg neu i gynnal prosesau adnoddau dynol yn Gymraeg. Hyd yma, nid oes unrhyw aelod o'r staff wedi gofyn am y cyfleuster hwn.
- Mae cyfleusterau gwirio sillafu Cymraeg mewnol ar gael at ddefnydd siaradwyr Cymraeg.
- Pan fyddwn yn mynd ati i hysbysebu unrhyw swydd, rydym yn mynd drwy broses i asesu'r sgiliau Cymraeg angenrheidiol ar gyfer y swydd.
- Cynigir prosesau recriwtio yn ddwyieithog.
- Mae pob aelod newydd o staff sy'n ymuno â Swyddfa'r Comisiynydd yn cael gwybodaeth am ofynion a phrosesau Safonau'r Gymraeg fel rhan o'i sesiynau sefydlu.
- Darperir sesiynau gloywi ar gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg yn ôl yr angen yn ystod y flwyddyn.
- Mae Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn dilyn polisïau Cymraeg ac iaith Gymraeg HDC.

**Safonau Cadw Cofnodion**

**Rydym yn gweithio i gyflawni ein safonau 'Cadw Cofnodion' drwy nifer o fesurau, gan gynnwys:**

Rydym yn cadw cofnodion o wybodaeth sy'n ymwneud â'n hysbysiad cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg. Er enghraifft, rydym yn cadw cofnod o nifer y cwynion mewn perthynas â'n cydymffurfiaeth, yn ogystal â chofnod o nifer yr aelodau o staff sy'n siarad Cymraeg a nifer y swyddi gwag a hysbysebwyd a gafodd eu hasesu ar gyfer sgiliau Cymraeg.

Er mwyn bodloni gofynion ein Safonau Cadw Cofnodion, rydym yn darparu'r wybodaeth isod mewn perthynas â'r cyfnod adrodd hwn:

| Gofyniad Cofnodi | Nifer |
|---|---|
| Nifer ein cyflogeion sy'n meddu ar sgiliau Cymraeg | **Dim sgiliau** - 1<br>**Lefel 1** - 5<br>**Lefel 2** - 29<br>**Lefel 3** - 7<br>**Lefel 4** - 4<br>**Lefel 5** - 5 |
| Nifer y swyddi newydd a'r swyddi gwag a hysbysebwyd gennym yn ystod y cyfnod adrodd hwn ac a gafodd eu categoreiddio'n swyddi lle roedd sgiliau Cymraeg yn hanfodol | 0 |
| Nifer y swyddi newydd a'r swyddi gwag a hysbysebwyd gennym yn ystod y cyfnod adrodd hwn ac a gafodd eu categoreiddio'n swyddi lle roedd angen i'r ymgeisydd llwyddiannus ddysgu Cymraeg ar ôl iddo gael ei benodi | 0 |
| Nifer y swyddi newydd a'r swyddi gwag a hysbysebwyd gennym yn ystod y cyfnod adrodd hwn ac a gafodd eu categoreiddio'n swyddi lle roedd sgiliau Cymraeg yn ddymunol | 15 |
| Nifer y swyddi newydd a'r swyddi gwag a hysbysebwyd gennym yn ystod y cyfnod adrodd hwn ac a gafodd eu categoreiddio'n swyddi lle nad oedd sgiliau Cymraeg yn angenrheidiol | 0 |

**Cwynion**

Mae gennym bolisi sefydledig ar gyfer ymdrin ag unrhyw gwynion ynglŷn â chadw at Safonau'r Gymraeg a gellir dod o hyd iddo ar ein gwefan. Nid ydym wedi cael unrhyw gwynion mewn perthynas â Safonau'r Gymraeg yn ystod y cyfnod adrodd hwn.

**Casgliad**

Mae'r broses o benodi Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu newydd wedi cynnig cyfle i ni roi ffocws o'r newydd ar y Gymraeg ac atgyfnerthu'r strwythur llywodraethu er mwyn sicrhau trefniadau strwythuredig ar gyfer cyflawni a datblygu prosesau ar gyfer cynnwys y Gymraeg fel rhan o'n busnes o ddydd i ddydd. Drwy gynnal yr archwiliad, cafwyd meincnod i'w ddefnyddio fel llinell sylfaen a chaiff cynnydd ei reoli drwy'r cyfarfod cydymffurfiaeth gyfreithiol.

Mae'r Comisiynydd a'i thîm yn ymrwymedig i groesawu'r Gymraeg ac annog y defnydd ohoni ym mhob rhan o'r sefydliad.